# Gweithgaredd Dysgu- Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer CA3.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia
Mordaith y 'Mimosa', 1865
Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig
Dyddiau cynnar ar dir Patagonia
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia
**Dyddiau du - llifogydd ac allfudo**
Ysgolion cynnar y Wladfa
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
Capeli ac eglwysi'r Wladfa

## Dyddiau du - Llifogydd ac allfudo

## Gan Culturenet Cymru

## Cyflwyniad

*Am resymau amlwg maen nhw'n awyddus i adael Chubut yn un corff ac ymsefydlu ... gyda'i gilydd mor bell ag sy'n bosibl.' Adroddiad ar y Wladfa Gymreig gan y Parchedig David Powell Richards*

**Tasgau ac amcanion dysgu**


1. Codi argae
2. System ddyfrhau
3. Lleoliad yr argae
4. Hysbyseb papur newydd
5. Newid dros amser
6. 'Cartŵn yr Wythnos'

Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru

## Dyddiau du - llifogydd ac allfudo

*'Am resymau amlwg maen nhw'n awyddus i adael Chubut yn un corff ac ymsefydlu ... gyda'i gilydd mor bell ag sy'n bosibl.' Adroddiad ar y Wladfa Gymreig gan y Parchedig David Powell Richards*

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd nifer o'r gwladfawyr deimlo'n anfodlon gyda bywyd yn Nyffryn Camwy. Ers diwedd y 1880au, bu lleihad sylweddol yn y nifer o ymfudwyr o Gymru a chynnydd yn y nifer o fewnfudwyr o gefndiroedd diwylliannol eraill. Roedd y gwladfawyr hefyd yn digio gydag ymyrraeth yr awdurdodau Archentaidd ym materion y Gwladfeydd. Ym maes addysg, er enghraifft, cyflwynwyd deddfwriaeth ym 1896 i wneud Sbaeneg yn gyfrwng addysgu ym mhob ysgol gynradd. Penodwyd Eugenio Tello yn Rhaglaw Chubut ym 1895. Roedd Tello yn amhoblogaidd ymysg y gwladfawyr yn rhannol oherwydd ei Babyddiaeth ronc, ond yn bennaf oherwydd ei fod yn gorfodi dynion ifanc y Wladfa i gyflawni gwasanaeth milwrol ar ddydd Sul. Wedi iddi dderbyn cwynion oddi wrth y gwladfawyr, rhoddodd y Llywodraeth ganiatâd i awdurdodau Chubut newid diwrnod y drilio, ond gwrthododd Tello weithredu ar hynny.




Cartŵn ynghylch ymadawiad nifer o Gymry'r Wladfa i Canada, 1901-2

Roedd y Rhaglaw O'Donnell, a benodwyd ym 1898, hyd yn oed yn fwy amhoblogaidd na'i ragflaenydd. Gwrthododd yntau newid diwrnod y drilio hefyd, ac yn elyniaethus tuag at iaith ac arferion Cymreig. Dim ond pan ymwelodd yr Arlywydd Roca â'r Wladfa ym 1898 y rhoddwyd caniatâd i'r gwladfawyr ddrilio ar ba bynnag ddiwrnod y mynnent. Ond, erbyn hynny, roedd dau gynrychiolydd o'r Wladfa wedi gadael am Brydain er mwyn dweud eu cwyn wrth y llywodraeth yn Llundain. Pan glywodd yr awdurdodau yn Nyffryn Camwy am y cam gwleidyddol hwn, ymatebasant yn llawdrwm gan gymryd rhai o ddynion y Wladfa i'r ddalfa. Rhoddwyd diwedd ar y mater pan anfonodd llywodraeth Ariannin ddau wr i'r Wladfa i baratoi adroddiad swyddogol ar yr helynt. Er i'r Rhaglaw O'Donnell gael ei ddiswyddo am ei ymddygiad, bu'r digwyddiad hwn yn andwyol iawn i'r berthynas rhwng y Wladfa a'r awdurdodau Archentaidd ar droad yr ugeinfed ganrif.

# Dyddiau du - llifogydd ac allfudo


I goroni’r cwbl, cafodd Dyffryn Camwy ei daro ym 1899 gan y llifogydd gwaethaf ers i'r Cymry ymsefydlu yno ym 1865. Yn ôl adroddiadau ar y pryd, bu'n bwrw glaw yn Nyffryn Camwy am dros dair wythnos, gan achosi i lefel yr afon godi ar gyfradd o bymtheg modfedd pob deuddeng awr. Difrodwyd cartrefi ac eiddo'r ymsefydlwyr a bu'n rhaid iddynt ffoi i dir uwch er mwyn diogelwch. Ni chollwyd unrhyw fywydau, ond dinistriodd y llifogydd dros gant o dai, wyth capel, pum ysgoldy a thri llythyrdy. Casglwyd miloedd o ddoleri yn Buenos Aires er mwyn rhoi cymorth i'r gwladfawyr, ond wedi i Afon Camwy orlifo deirgwaith eto, dechreuodd nifer ohonynt deimlo nad oedd dyfodol iddynt ar dir Patagonia.



***Rhai o Gymry Patagonia ym mhorthladd Lerpwl ar fwrdd y stemar 'Numidian' ar eu ffordd i Canada (llungopi o ffoto)***

Dechreuodd yr allfudo mawr o'r Wladfa wedi i ddau wr ymfudo i Canada yn fuan wedi'r llifogydd. Buont yn ceisio annog y gwladfawyr eraill i ymuno â hwy ac fe deithiodd cynrychiolydd o lywodraeth Canada i Ddyffryn Camwy i gynnig tir i'r gwladfawyr. Ar ddiwedd 1901, gadawodd grwp bychan o’r gwladfawyr ar eu traul eu hunain. Roedd eraill yn dymuno gwneud yr un peth, ond roedd y mwyafrif ohonynt yn rhy dlawd i ymfudo. Sefydlwyd cronfa arbennig ym Mhrydain i godi arian i'w cynorthwyo a chafwyd cyfraniadau gan Dywysog Cymru, Joseph Chamberlain, Ysgrifennydd Cartref y Trefedigaethau, a nifer o Aelodau Seneddol Cymru. Roedd yr arian a godwyd yn ddigon i dalu am gludo tua 230 o wladfawyr o Batagonia i Canada. Gadawodd yr agerlong 'Orissa' o Borth Madryn ar 15 Mai 1902 gan deithio i Lerpwl. Wedi aros yn Lerpwl am ddiwrnod neu ddau, cychwynnodd 208 ohonynt ar ail gymal y daith i Ganada ar fwrdd yr agerlong 'Numidian'.

Bu trafodaethau hefyd ynghylch y posibilrwydd o ymfudo i Dde Affrica. Cadeirydd y mudiad hwn oedd D. S. Jones, Rhymni, a Llwyd ap Iwan oedd yr ysgrifennydd. Mewn llythyr a ysgrifennodd ei frawd yng nghyfraith, yr Athro Thomas Rhys, ar 12 Medi 1902, dywedodd Llwyd ap Iwan ei fod wedi derbyn telegram gan yr Athro O. M. Edwards, Llanuwchllyn: 'Splendid offer Gwladfa Africa wire if interested'. Atebodd: 'Deeply interested awaiting details.' Yn ei lythyr, esboniodd Llwyd fod y gwladfawyr yn awyddus i archwilio tir ac adnoddau'r wlad cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ymfudo yno. Gan fod nifer ohonynt o'r farn mai camgymeriad oedd teithio i'r Wladfa yn y lle cyntaf, a bod amryw o'r rhai a ymfudodd i Ganada yn siomedig gyda'u sefyllfa newydd, roedd y gwladfawyr yn ochelgar iawn cyn dod i benderfyniad ynghylch De Affrica.



Llythyr oddi wrth Llwyd ap Iwan at ei frawd yng nghyfraith, yr Athro Thomas Rhys, 12 Medi 1902 [tudalen 1, delwedd 1 o 2]

Bu'n rhaid i'r gwladfawyr Cymreig wynebu un o’r cyfnodau caletaf yn hanes y Wladfa yn dilyn llifogydd 1899. Ond, er gwaethaf yr awydd i adael y Wladfa ac ymsefydlu mewn gwlad newydd, dewisodd y rhan fwyaf ohonynt aros ym Mhatagonia. Mae eu disgynyddion yn parhau i fyw yno heddiw ac mae'r iaith a’r traddodiadau Cymreig yn chwarae rhan bwysig ym mywydau rhai ohonynt.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerdydd, 1962)

# Dyddiau du - llifogydd ac allfudo

## Tasg 1. Codi argae

Pam roedd angen codi argae ar draws yr afon? Beth oedd pwysigrwydd yr argae?

## Tasg 2.  System ddyfrhau

Sut fath o brofiad oedd gweithio ar y system ddyfrhau? Pa anawsterau fyddai'n dod i ran yr adeiladwyr?

## Tasg 3. Lleoliad yr argae

Gan ddefnyddio'r eitem ***'Llyfr Cwmni Dyvrhaol y Camwy' 1885-6 [delwedd 2 o 61]*** ,gwnewch ddiagram yn dangos lleoliad yr argae a'r system ddyfrhau yn Nyffryn Camwy.

## Tasg 4. Hysbyseb papur newydd

Ysgrifennwch hysbyseb papur newydd i ddarbwyllo dynion busnes lleol i fuddsoddi yn y fenter.

## Tasg 5. Newid dros amser

Cofnodwch y pethau a fyddai'n newid dros amser o ganlyniad i'r system ddyfrhau a rhestrwch y pethau a fyddai'n aros yr un peth.

*Cwblhewch y daflen waith – Effeithiau Dyfrhau*

## Tasg 6.  '*Cartŵn yr Wythnos'*

Beth mae'r cartwnydd yn ceisio ei gyfleu drwy'r 'Cartoon of the Week'?

Lluniwch gartŵn sy'n trosglwyddo'r un neges ond gan ddefnyddio delwedd wahanol.

*Cwblhewch y daflen waith – Cartŵn yr Wythnos*

# Effeithiau Dyfrhau





newid



aros yr un peth








Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Gadael am Ganada

Beth mae'r cartwnydd yn ceisio ei gyfleu trwy Gartŵn yr Wythnos?






Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Cartŵn yr Wythnos

Ewch ati i greu cartŵn sy'n trosglwyddo'r un neges ond gan ddefnyddio gwahanol ddelwedd.


THE WEEKLY MAIL. SATURDAY. FEBRUARY 15. 1902.

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg